



Department
for Environment
Food & Rural Affairs

Diwygiadau i Gynllun Flood Re Ymgynghoriad

Chwefror 2021



© Hawlfraint y Goron 2020

Trwyddedir y wybodaeth hon o dan Drwydded Llywodraeth Agored v3.0. I weld y drwydded, hon ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiad mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom yn

floodinsurance@defra.gov.uk

PB 14642

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Rhagair Gweinidogol	1
Cyflwyniad	2
Ymgynghoriad	5
Premiymau gostyngedig i gartrefi gyda Chydnerthedd Llifogydd Eiddo (PFR)	5
Ailgodi'n Gryfach	7
Ardoll I	10
Terfyn Atebolrwydd	11
Defnyddio cronfeydd Flood Re	12
Premiymau Flood Re	13
Rhestr o gwestiynau	14
Sut y gallwch fynegi eich barn	19
Sut mae ymateb	19
Cyfrinachedd a diogelu data	20

Rhagair Gweinidogol

Mae effeithiau diweddar Storm Christoph wedi ein hatgoffa o ddifrifoldeb yr heriau sydd yn ein hwynebu mewn perthyna â llifogydd. Y gaeaf diwethaf oedd y pumed gaeaf gwlypaf a gofnodwyd ers 1862 ac achosodd ddifrod eang ledled y DU. Ymwelais â rhai o'r bobl yr effeithiwyd arnynt a gweld â fy llygaid fy hun yr effaith dinistriol a achoswyd gan y llifogydd ar drigolion a busnesau.

Rydym yn gwybod y disgwylir i risg ac effaith llifogydd gynyddu yn ystod y degawdau sydd i ddod o ganlyniad i dwf poblogaeth a newid hinsawdd. Fel y nodwyd yn ein Cynllun yr Amgylchedd 25 Mlynedd, blaenoriaeth y Llywodraeth yw "lleihau'r risg o niwed i bobl, yr amgylchedd a'r economi, o ganlyniad i lifogydd ac erydiad arfordirol". Lansiwyd ein Datganiad Polisi haf diwethaf. Mae'n amlinellu pum polisi uchelgeisiol a dros 40 o gamau ategol fydd yn cyflymu'r cynnydd er mwyn gwarchod a pharatoi'r wlad yn well yn erbyn llifogydd ac erydiad arfordirol yn wyneb tywydd eithafol amlach o ganlyniad i newid hinsawdd.

Yn unol â'r hymrwymiaidau i baratoi cymunedau yn well ar gyfer llifogydd, cyhoeddwyd hefyd y byddem yn ymgynghori ar newidiadau penodol i'r Cynllun Flood Re fyddai angen newid deddfwriaethol. Yn 2016 lansiwyd y fenter ar y cyd rhwng y llywodraeth a'r diwydiant yswiriant, Flood Re, gan i'r llywodraeth gydnabod bod yna ddiffyg yswiriant llifogydd fforddiadwy ar gael i rai sydd yn byw mewn ardaloedd risg uchel o lifogydd. Ers ei lansio, mae dros 300,000 o gartrefi wedi elwa o'r Cynllun. Cyn cyflwyno'r Cynllun, canfu ymchwil a gomisiynwyd gan Flood Re mai dim ond 9% o ddeiliad tai oedd eisoes wedi hawlio am ddifrod llifogydd allai gael dyfynbrisiau gan ddau neu ragor o yswirwyr; erbyn hyn gall 96% dderbyn dyfynbrisiau gan bump neu ragor o yswirwyr. Hefyd, gwelodd pedwar allan o bump deiliad tŷ oedd eisoes wedi hawlio mewn perthynas â llifogydd ostyngiadau o 50% mewn prisiau.

Mae yswiriant priodol yn offeryn pwysig wrth gefnogi adferiad yn dilyn llifogydd a helpu pobl dychwelyd i normalrwydd yn gyflymach. Rydym eisiau sicrhau bod yswiriant llifogydd yn hygyrch a fforddiadwy i bobl mewn ardaloedd risg llifogydd. Mae'r newidiadau a nodir yn yr ymgynghoriad yma yn amcanu at wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cynllun Flood Re, ac ategu diben Flood Re o reoli'r broses pontio i farchnad yswiriant llifogydd sydd yn adlewyrchu risg erbyn iddynt adael y farchnad yn 2039. Mae'r cynigion yma yn amcanu at annog mwy o aelwydydd sydd yn wynebu risg uchel o lifogydd ledled y DU i ddefnyddio Cydnerthedd Llifogydd Eiddo (PFR) ac at roi gwell cefnogaeth i gwsmeriaid ac yswirwyr i elwa o'r buddion.

Rebecca Pow AS

Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol (Y Gweinidog dros yr Amgylchedd Ddomestig)

Cyflwyniad

Mae llifogydd yn achosi gwerth £1 biliwn o ddifrod bob blwyddyn ar gyfartaledd¹i fusnesau ac aelwydydd yn y DU, yn ogystal â difrod a niwed sylweddol i seilwaith, iechyd, lles, tir a chynefinoedd naturiol. Yn ystod y degawdau nesaf disgwylir i risg ac effaith llifogydd gynyddu o ganlyniad i dwf poblogaeth a newid hinsawdd.

Mae cofnodion y Swyddfa Dywydd yn dangos bod yna duedd o lawiad cynyddol yn dymhorol a blynyddol. Ers 1998 rydym wedi gweld chwech o'r 10 o flynyddoedd gwlypaf a gofnodwyd. Yn achos y degawd diweddaraf (2010-2019) mae hafau yn y DU wedi bod 11% yn wlypach nag yn 1981-2010. Mae gaeafau yn y DU wedi bod 4% yn wlypach nag yn ystod 1981–2010².

Y llifogydd yn Ne Swydd Efrog, Swydd Derby, Swydd Nottingham a Swydd Lincoln yn Nhachwedd 2019 oedd y digwyddiad llifogydd mwyaf difrifol (bryd hynny) yn y DU ers Rhagfyr 2015. Mae Cymdeithas Yswirwyr Prydain (ABI) wedi amcangyfrif y disgwyliwyd i hawliadau mewn perthynas â llifogydd Tachwedd yn unig gyrraedd £110 miliwn³.

Mae'r llywodraeth yn buddsoddi £2.6 miliwn rhwng 2015 a 2021 er mwyn helpu i reoli'r risgiau yma. Bydd hynny yn denu dros £600 miliwn o fuddsoddiad ychwanegol a bydd yn rhoi gwell gwarchodaeth i 300,000 o gartrefi erbyn 2021. Ochr yn ochr â'r buddsoddiad yma, mae'r llywodraeth yn gwario dros £1 biliwn ar gynnal a chadw asedau amddiffyn rhag llifogydd. Yn 2021, bydd y llywodraeth yn dechrau buddsoddi £5.2 biliwn mewn rhaglen fuddsoddi cyfalaf chwe blynedd ar gyfer amddiffynfeydd llifogydd. Bydd y buddsoddiad yma yn rhoi gwell gwarchodaeth i 336,000 o gartrefi rhag llifogydd ac erydiad arfordirol.

Ond, nid amddiffynfeydd llifogydd yn unig yw'r ateb i'r risg o ganlyniad i lifogydd, a hyd yn oed pan fo amddiffynfeydd yn bodoli, gallai llifogydd difrifol eu gorlifo. Mae'n bwysig bod cymunedau yn cymryd camau eraill i baratoi ar gyfer llifogydd a chyfyngu ar y difrod a'r amharu y gall llifogydd ei achosi.

Ar 14 Gorffennaf 2020, cyhoeddodd Defra ei gynllun hirdymor ar gyfer taelo'r risg o lifogydd ac erydiad arfordirol yn ei Ddatganiad Polisi hirdymor⁴. Mae'r cynllun uchelgeisiol yma yn nodi pum ymrwymiad allweddol - wedi eu hategu gan dros 40 o gamau clir - fydd

¹ Amcangyfrif cost economaidd llifogydd gaeaf 2015 i 2016:

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/672087/Estimating_the_economic_costs_of_the_winter_floods_2015_to_2016.pdf

² Cyflwr yr Hinsawdd 2019: <https://rmets.onlinelibrary.wiley.com/doi/epdf/10.1002/joc.6726>

³ <https://www.abi.org.uk/news/news-articles/2019/11/yorkshire-and-midlands-flood-damage-payouts-set-to-top-100-million-says-the-abi/>

⁴ <https://www.gov.uk/government/publications/flood-and-coastal-erosion-risk-management-policy-statement>

yn cyflymu'r cynnydd er mwy gwarchod a pharatoi'r wlad yn well ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod. Mae'r Datganiad Polisi yn cynrychioli'r diweddariad mwyaf sylweddol ers degawd i'n hymdrech genedlaethol i daclo risg llifogydd ac erydiad arfordirol - ers Deddf Rheoli Dŵr Llifogydd 2010.

Yn ein datganiad polisi rydym yn nodi sut y byddwn yn rhoi gwell cefnogaeth i gymunedau, yn cynnwys pan fo llifogydd yn digwydd ac yn ystod y cyfnod o adfer yn dilyn hynny.

Byddwn yn sicrhau bod ein cymunedau a'n busnesau yn cael y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i reoli a pharatoi ar gyfer y risg llifogydd fel bod cymunedau wedi paratoi yn well. Rydym eisiau sicrhau bod yswiriant llifogydd yn hygyrch a fforddiadwy i bobl mewn ardaloedd risg llifogydd, a rydym eisiau annog mwy o bobl i fanteisio ar fesurau Cydnerthedd Llifogydd Eiddo (PFR) er mwyn cyfyngu ar y difrod a'r amharu y gall llifogydd ei achosi. Yn yr Alwad am Dystiolaeth sydd yn cael ei chynnal ochr yn ochr â'r ymgynghoriad yma, byddem yn hoffi clywed eich safbwyntiau ar yr amrediad o fesurau galluogi y mae angen iddynt weithio'n effeithiol er mwyn goresgyn rhwystrau a chyflymu'r defnydd o PFR.

Flood Re

Lansiwyd Flood Re, sydd yn fenter ar y cyd rhwng y llywodraeth a'r diwydiant yswiriant, yn 2016 er mwyn helpu i fynd i'r afael â diffyg yswiriant llifogydd fforddiadwy ar gyfer aelwydydd sydd yn wynebu risg uchel o lifogydd.

Nid yw Flood Re yn delio'n uniongyrchol â pherchnogion tai, ond yn hytrach mae'n galluogi i gwmnïau yswiriant drosglwyddo'r elfen risg llifogydd mewn polisiâu yswiriant tai i Flood Re ar gyfer premiwm penodol yn seiliedig ar fandiau treth cyngor. Mae'r premiymau y mae Flood Re yn ei godi ar yswirwyr yn cael eu pennu o dan Reoliadau Ail-yswirio Llifogydd (Ariannu a Gweinyddu Cynllun) 2015 ("y Rheoliadau") ac a maent yn amrywio yn ôl band treth cyngor yr eiddo a yswirir. Mae'r Rheoliadau yn nodi uchafswm trothwy premiwm ar gyfer pob band treth cyngor ac yn darparu ar gyfer cynnydd yn ôl Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ar ôl hynny. Mae'r Rheoliadau yn caniatáu i Flood Re amrywio'r premiymau a godir, cyn belled nad ydynt yn uwch na'r trothwy a nodir. Hefyd, mae tâl-dros-ben sefydlog o £250 am bob hawliad yn gymwys i hawliadau llifogydd ar bolisiâu a ildwyd. Mewn achos o lifogydd, bydd Flood Re yn talu i'r yswiriwr am gost yr hawliad a wnaethpwyd gan ddeiliad y polisi. Ail-yswiriwr yw Flood Re ac nid yw'n delio â'r defnyddwyr.

Hyd yma mae dros 300,000 o aelwydydd wedi elwa o ganlyniad i Flood Re. Cyn cyflwyno'r Cynllun canfu Flood Re mai dim ond 9% o ddeiliad tai oedd eisoes wedi hawlio am ddifrod llifogydd allai gael dyfynbrisiau gan ddau neu ragor o yswirwyr; erbyn hyn gall 96% dderbyn dyfynbrisiau gan bump neu ragor o yswirwyr. Hefyd, gwelodd pedwar allan o bump deiliad tŷ oedd eisoes wedi hawlio mewn perthynas â llifogydd ostyngiadau o 50% mewn prisiau.

Nid yw rhai cartrefi yn perthyn i gwmpas Flood Re, yn cynnwys cartrefi a adeiladwyd ar ôl 2009 oherwydd byddai hynny yn anghyson â pholisi cynllunio cyfredol. Gallai ehangu'r Cynllun Flood Re i gynnwys cartrefi a adeiladwyd ar ôl 2009 gymell datblygu mewn ardaloedd risg llifogydd. Mae newidiadau i bolisi cynllunio yn 2006 yn nodi y dylid osgoi datblygu amhriodol ar orlifdiroedd, a phan fo datblygu mewn ardal risg llifogydd yn angenrheidiol, dylai gael ei wneud yn ddiogel a chydnerth mewn perthynas â llifogydd, heb gynyddu risg llifogydd mewn mannau eraill. Felly dylai cartrefi a adeiladwyd ar ôl 2009 fod yn fforddiadwy i'w hyswirio.

Nid yw busnesau ychwaith yn perthyn i'r cwmpas oherwydd bod Flood Re yn cael ei ariannu drwy ardoll ar yswirwyr cartrefi y DU. Mae yswiriant busnesau yn gweithredu'n wahanol i yswiriant cartrefi - yn aml mae'n bwrpasol, yn seiliedig ar natur unigol y busnes. Nid oes yna unrhyw dystiolaeth o broblem systemig mewn perthynas â busnesau sydd yn wynebu risg uchel o lifogydd yn methu â chael yswiriant. Canfu ymchwil yn 2018 nad oedd 2% o fusnesau bach yn gallu canfod sicrwydd yswiriant addas ar gyfer risg llifogydd⁵. Byddai ehangu cwmpas Flood Re i gynnwys busnesau yn creu ardoll newydd ar fusnesau, a gallai arwain at fusnesau ledled y wlad, a chwsmeriaid yn anuniongyrchol, yn cymorthdaldu sefydliadau creu elw sydd wedi eu lleoli mewn ardaloedd risg llifogydd. Gall busnesau mewn ardaloedd risg llifogydd uchel siopa o gwmpas am y dyfynbris yswiriant gorau, a gallent ystyried defnyddio brocer priodol. Eisoed mae yna nifer o gynhyrchion arloesol yn cael eu cynnig i fusnesau gan y diwydiant megis cynllun Cymdeithas Broceriaid Yswirwyr Prydain er mwyn helpu mentrau bach a chanolig (SME) a darparu sicrwydd llifogydd i'r rhai nad ydynt yn gymwys i dderbyn Flood Re. Mae datrysiadau eraill yn cynnwys yswirwyr sydd yn cynnig mwy o dâl-dros-ben mewn perthynas â llifogydd gyda phremiymau gostyngedig, ac yswiriant parametrig sydd yn galluogi i berchnogion eiddo bennu lefel y premiwm yn unol â lefel risg gytunedig.

Rhan o bwrpas Flood Re yw helpu marchnad yswiriant llifogydd y DU symud ymlaen gan adlewyrchu risg. Mae hynny yn golygu y dylai yswirwyr, erbyn 2039, fod yn codi premiymau ar gwsmeriaid yn unol â'r risg o lifogydd.

Mae'r Cynllun yn weithredol ledled y DU ac mae mewn lle unigryw rhwng y llywodraeth a'r diwydiant yswiriant, ac mae hynny yn ei alluogi i adnabod cyfleoedd ac i weithredu arnynt er mwyn arloesi yn y diwydiant yswiriant a chymell deiliaid tai i gymryd camau i fynd i'r afael â'u risg.

Ar 8 Gorffennaf 2019, cyhoeddodd Flood Re eu hadroddiad Adolygiad Pum Mlynedd (QQR) cyntaf⁶. Roedd yr adroddiad yma yn archwilio sut mae'r Cynllun yn gweithredu a chyflwynodd nifer o gynigion i'r llywodraeth. Mae'r cynigion yma yn bwriadu gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cynllun, a chefnogi pwrpas Flood Re er mwyn rheoli'r

⁵<http://sciencesearch.defra.gov.uk/Default.aspx?Menu=Menu&Module=More&Location=None&ProjectID=19990&FromSearch=Y&Publisher=1&SearchText=FD2705&SortString=ProjectCode&SortOrder=Asc&Paging=10#Description>

⁶ Adolygiad Pum Mlynedd: https://www.floodre.co.uk/wp-content/uploads/QQR_FINAL.pdf

pontio i farchnad sydd yn adlewyrchu risg. Ym mis Gorffennaf eleni bu i ni gyhoeddi y byddem yn ymgynghori ar nifer o gynigion, yn cynnwys rhai sydd yn mynd ymhellach na'r rhai yn adroddiad Flood Re, ac sydd golygu y byddai angen newidiadau deddfwriaethol i Gynllun Flood Re.

Ar wahân i hynny, rydym hefyd yn bwrw ymlaen â nifer o gynigion aneddfwriaethol, yn cynnwys gwaith gyda HMT a Flood Re ar gynnig QQR Flood Re i fuddsoddi rhan o'i gyfalaf mewn ystod ehangach o fuddsoddiadau. Yn unol â mentrau Ariannu Gwyrdd y llywodraeth rydym yn annog archwilio'r opsiynau sydd ar gael i fuddsoddi mewn arian gwyrdd pan fo yna fudd amlwg o ran Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol, pan fo'n briodol. Rydym yn archwilio fframwaith fyddai yn caniatáu i Flood Re wneud hynny. Rydym hefyd yn archwilio dewisiadau amgen i drefniadau ailyswiro atal colledion presennol Flood Re.

Ymgynghoriad

Mae'r ymgynghoriad yma yn ceisio safbwyntiau ar nifer o'r cynigion mewn perthynas â Flood Re, ac roedd rhai ohonynt wedi eu nodi yn yr Adroddiad Adolygiad Pum Mlynedd cyntaf a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2019.

Mae'r ddau gynnig cyntaf yn ceisio annog deiliaid tai ac yswirwyr i osod mesurau Cydnerthedd Llifogydd Eiddo (PFR) drwy gynnig cymhelliannau ariannol i wneud hynny. Mae PFR yn rhan allweddol o'r pecyn ar gyfer rheoli risg llifogydd. Mae'n cyfeirio at fesurau ellir eu defnyddio mewn eiddo er mwyn lleihau'r risg o lifogydd a lefelau difrod. Mae PFR yn elfen allweddol o gynllun Flood Re ar gyfer pontio tuag at farchnad yswiriant cartrefi sydd yn adlewyrchu risg ar gyfer rhai sydd yn wynebu risg o lifogydd erbyn 2039. Y llynedd, nodwyd yn ein Datganiad Polisi Rheoli Risg Llifogydd ac Erydiad Arfordirol ein

hymrwymiad i ystyried sut mae goresgyn rhwystrau mewn perthynas â defnyddio PFR mewn cartrefi sydd yn wynebu risg uchel o lifogydd, ac annog mwy o ddefnydd ohono.

Mae'r ddau gynnig nesaf yn fesurau technegol y bwriedir iddynt wella effeithlonrwydd Cynllun Flood Re. Rydym eisiau gweld y Cynllun yn gweithio mor effeithlon â phosibl gan ddangos gwerth da am arian pryd bynnag fo hynny'n bosibl.

Mae'r cynnig nesaf yn archwilio a oes yna fwy allai Cynllun Flood Re ei wneud i gyflymu'r defnydd o PFR, yn cynnwys a ddylid galluogi Flood Re wario unrhyw wargedion mae'n eu crynodi (sydd yn fwy nag sydd ei angen arno i weithredu a bodloni ei ofynion rheoleiddiol) ar fwy o weithgareddau pontio.

Mae rhan olaf yr ymgynghoriad yn archwilio a ddylid gostwng premiymau Flood Re.

Diben yr ymgynghoriad yma yw deall a yw'r cynigion yma yn cael eu cefnogi ac a fyddai yna unrhyw ganlyniadau anfwriadol i yswirwyr neu randdeiliaid eraill.

Oherwydd bod Flood Re yn gweithredu ledled y DU, byddai'r mesurau yma yn dod i rym yng Nghymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon a Lloegr. Felly rydym yn croesawu ymatebion gan sefydliadau ac unigolion o'r pedair gwlad.

Premiymau gostyngedig i gartrefi gyda Chydnerthedd Llifogydd Eiddo (PFR)

Mae PFR yn golygu cymryd camau i atal dŵr rhag mynd i mewn i eiddo, neu os bydd, i leihau lefel y difrod mae'n ei achosi. Ni ellir amddiffyn pob cartref gydag amddiffynfeydd llifogydd lefel gymunedol oherwydd efallai eu bod yn anfforddiadwy neu'n anghynladwy, a ble maent yn bodoli, gallent gael eu gorlifo. Nid yw defnyddio PFR yn gwarantu na fydd eiddo fyth yn dioddef llifogydd. Ond bydd yn lleihau'r tebygolrwydd o ddifrod a/neu lefel y difrod, a'r amharu canlyniadol ar fywydau y rhai yr effeithir arnynt gan y llifogydd.

Yn eu Hadroddiad QQR, un o gynigion Flood Re oedd cynnig premiymau rhatach i gartrefi oedd wedi gosod PFR. Cynyddu'r defnydd o PFR yw un o'r liferi allweddol sydd ar gael i Flood Re er mwyn helpu i gynyddu cydnerthedd cartrefi yn wyneb llifogydd. Er ein bod yn gwybod bod y diwydiant yswiriant wedi bod yn gefnogol i PFR mewn egwyddor, buasem yn dymuno gweld mwy o gysylltiad rhwng cost yswirio a mesurau PFR.

Oherwydd mai ail-yswiriwr yr Flood Re ac nad yw'n delio â'r defnyddwyr, ni fydd yn cynnig premiymau gostyngedig yn uniongyrchol i gartrefi - byddai Flood Re yn cynnig premiymau gostyngedig i yswirwyr sydd yn ildio polisïau iddynt, ac yswirwyr fyddai'n trosglwyddo'r premiymau gostyngedig hynny i'r cwsmeriaid.

Er mwyn gwella'r data ar effeithiolrwydd PFR, mae Flood Re yn cynnig sicrhau bod cartrefi gyda PFR yn cael eu cofnodi a bod y data yn cael ei ddefnyddio i greu cronfa dystiolaeth ar y defnydd o PFR ac effaith bosibl hynny. Petai'n addas, rydym yn amcanu at ddefnyddio'r data i ysgogi gweithwyr proffesiynol ac yswirwyr yn y diwydiant yswirio i ystyried unrhyw ostyngiadau posibl mewn difrod a achoswyd o ganlyniad i PFR. Mae'r Llywodraeth a Flood Re yn rhannu'r farn bod angen i ni fod yn hyderus bod mesurau PFR o safon effeithiol er mwyn sicrhau bod risg llifogydd yn cael ei leihau.

Fel rhan o'n gwaith o weithredu'r Datganiad Polisi, mae'r Alwad am Dystiolaeth sydd yn cael ei chynnal ochr yn ochr â'r ymgynghoriad yma yn ceisio tystiolaeth er mwyn goresgyn rhwystrau mewn perthynas â PFR. Rydym yn bwriadu adeiladu ar ddata a thystiolaeth sydd yn bodoli er mwyn hysbysu ein polisi i'r dyfodol. Byddwn yn ystyried canlyniadau'r ymgynghoriad yma a'r Alwad am Dystiolaeth, a byddwn yn amcanu at ddatblygu fframwaith er mwyn tanategu'r broses o ddatblygu'r sector PFR.

1. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai Flood Re gynnig premiymau gostyngedig i gartrefi sydd wedi gosod PFR?

- **Cytuno**
- **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**
- **Anghytuno**
- **Ddim yn gwybod**

2. I ba raddau ydych chi'n credu y bydd cynnig premiymau gostyngedig gan Flood Re i gartrefi sydd wedi gosod PFR yn helpu i gymell defnyddio PFR mewn cartrefi risg uchel?

- I raddau helaeth
- I raddau cymedrol
- I ryw raddau
- I raddau bychan
- Dim o gwbl
- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau i gefnogi eich atebion.

3. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd cynnig premiymau gostyngedig gan Flood Re i gartrefi sydd wedi gosod PFR yn cymell yswirwyr i gynnig premiymau gostyngedig?

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

4. A ydych yn rhagweld unrhyw ganlyniadau anfwriadol i gynnig premiymau gostyngedig i gartrefi sydd wedi ildio polisïau i Flood Re sydd wedi cymryd camau i osod mesurau Cydnerthedd Llifogydd Eiddo?

5. Beth yw'r ffordd orau i Flood Re ostwng premiymau yswiriant i rai sydd wedi gosod mesurau PFR priodol?

- Cymhwyso'r un gostyngiad i'r holl bolisïau cymwys
- Cymhwyso gostyngiadau yn seiliedig ar sgôr effeithiolrwydd y PFR a osodwyd, gyda'r gostyngiadau canran uwch yn cael eu cymhwyso i'r rhai sydd wedi gosod PFR sgôr uwch.
- Cymhwyso gostyngiadau yn seiliedig ar fandiau'r Dreth Gyngor, gyda gostyngiadau canran uwch yn cael eu cymhwyso i'r rhai mewn bandiau Treth Gyngor is.
- Cymhwyso gostyngiad canran yn ddibynnol ar werth yr yswiriant eiddo a chynnwys.

- **Arall - rhowch fanylion**

Ailgodi'n Gryfach

Hoffai Flood Re gael caniatâd i dalu am hawliadau sydd yn cynnwys elfen o waith atgyweirio cydnerthedd a/neu ymwrthedd (Ailgodi'n Gryfach), sydd yn fwy na'r ailgodi tebyg am debyg yn achos difrod llifogydd. Mae hynny yn amcanu at leihau'r risg i'r dyfodol a/neu gostau i'r dyfodol o atgyweirio difrod cysylltiedig â llifogydd i gartrefi. Fel arfer, a heb Ailgodi'n Gryfach, pan fo tŷ yswiriedig yn cael ei orlifo, mae'r yswiriwr yn talu am gostau ailaddurno'r cartref fel bod y tŷ yn cael ei adfer i'r un cyflwr ag yr oedd ynddo cyn y llifogydd. Ond, mae hynny yn golygu bod y cartref yn wynebu risg o lifogydd i'r dyfodol ar ôl atgyweirio'r eiddo.

Mae'r cynnig yn unol â'n Datganiad Polisi a'n huchelgais i weld cynnydd yn y defnydd o PFR er mwyn cyfyngu ar y difrod a'r amharu y gall llifogydd ei achosi. Mae gallu ailgodi cartrefi yn well yn dilyn llifogydd, yn hytrach na dim ond eu hadfer i'w cyflwr gwreiddiol, yn cynnig nifer o fuddion i deiliaid tai. Er enghraifft, os bydd eiddo yn gorlifo eto, dylai'r broses adfer fod yn fwy esmwyth a rhatach na fyddai wedi bod fel arall i'r yswirwyr a'r deiliaid tai, a dylai deiliaid tai allu dychwelyd i'w cartrefi yn gynt.

Bydd y cynnig yma yn cynyddu nifer y cartrefi sydd yn gydnerth i lifogydd ac ehangu'r gronfa dystiolaeth ynghylch buddion ariannol ac ymarferol, i yswirwyr a defnyddwyr. Bydd hefyd yn cefnogi datblygu marchnad i gynhyrchion a gwasanaethau PFR. Rydym yn gobeithio y bydd yn annog yswirwyr i ystyried cynnig Ailgodi'n Gryfach i gwsmeriaid fel rhan safonol o'u polisïau yswiriant cartrefi. Ar hyn o bryd mae yna tua 165,000 o bolisïau wedi ei hildio i Flood Re allai elwa o'r cynnyrch yma, petaent yn dioddef digwyddiad llifogydd.

Mae Ailgodi'n Gryfach yn wahanol i osod PFR yn rhagweithiol oherwydd bod Ailgodi'n Gryfach yn cael ei sbarduno gan ddigwyddiad llifogydd. Ymgorffori hyn i'r broses atgyweirio ac ailadeiladu yw'r ffordd fwyaf gost-effeithiol o wneud y cartref a orlifwyd yn fwy cydnerth yn wyneb digwyddiadau llifogydd yn y dyfodol⁷.

Byddai hyn ond yn gymwys pan fo yswiriwr cyfranogol wedi gwneud Ailgodi'n Gryfach yn rhan awtomatig o'r holl yswiriant risg llifogydd ar gyfer eu polisïau yswiriant cartrefi eraill, nid y polisïau a ildwyd i Flood Re yn unig. NI all Flood Re orfodi yswirwyr i gynnig Ailgodi'n Gryfach oherwydd bod hynny yn fater masnachol.

Mae Flood Re yn cynnig ad-dalu hyd at £10,000 i yswirwyr am Ailgodi'n Gryfach er mwyn lleihau'r risg yn y dyfodol i eiddo orlifo a/neu gost atgyweirio. Ar hyn o bryd, nid yw'r

⁷Gwella'r gronfa dystiolaeth ynghylch cydnerthedd gorlifo eiddo: <https://www.floodre.co.uk/enhancing-the-evidence-base-for-property-flood-resilience/>

Rheoliadau sydd yn gweithredu'r Cynllun Flood Re, na'i Gytundeb Ailyswirio (y cytundeb rhwng Flood Re a phob yswiriwr) yn caniatáu i Flood Re ad-dalu i yswirwyr am waith atgyweirio yn dilyn llifogydd sydd yn gwneud y cartref yn fwy cydnerth yn wyneb llifogydd nag o'r blaen. Mae hynny oherwydd byddai'n dechnegol gyfystyr â "gwelliant". Byddai'r cynnig yma yn golygu y byddai angen diwygiadau i Rheoliadau Ailyswirio Llifogydd (Ariannu a Gweinyddu'r Cynllun) 2015 a deddfwriaeth eilaidd er mwyn diddymu ac ail-lunio'r Rheoliadau Ailyswirio Llifogydd (Y Cynllun a Dynodiad Gweinyddwr y Cynllun) 2015 ("y Rheoliadau Dynodi").

Er bod rhai yswirwyr eisoes yn cynnig Ailgodi'n Gryfach fel rhan o'u cynnig masnachol, mae natur gystadleuol y farchnad yswiriant yn golygu nad oes gan yswirwyr unigol bob amser y cymhellion i roi cymhorthdal ariannol i gwsmeriaid sydd â PFR. Mae hynny oherwydd gallai yswiriwr fuddsoddi mewn PFR mewn eiddo ac yna gallai'r cwsmer ddefnyddio yswiriwr gwahanol y flwyddyn ddilynol, a byddai felly'n colli buddion eu buddsoddiad. Mae Flood Re mewn lle unigryw yn y farchnad, sydd yn golygu y gallent gymorthdal am fesurau PFR heb y risg o golledion ariannol o ganlyniad i gystadleuaeth.

Yn unol â'r egwyddorion presennol yng Nghytundeb Ailyswirio Flood Re, bydd Flood Re yn parhau i ddisgwyl i yswirwyr ddangos bod hawliadau yn cael eu rheoli mewn ffordd gyson ar draws polisiau p'un a ydynt wedi eu hildio i Flood Re neu beidio. Byddai hynny yn golygu y byddai ond angen y newidiadau lleiaf i'r ffordd y mae Flood Re yn gweithredu ar hyn o bryd. Petaent yn cael eu gorlifo, byddai cwsmeriaid yn hawlio drwy eu hyswirwyr fel arfer, ac yna byddai'r yswiriwr yn hawlio oddi ar Flood Re os ydynt wedi ildio'r risg llifogydd iddynt. Bydd angen i gwsmeriaid ymgysylltu â Flood Re eu hunain. Rydym yn disgwyl i yswirwyr fod yn dryloyw gydag unrhyw gronfeydd a gynigir i Ailgodi'n Gryfach er mwyn sicrhau eu bod yn cyrraedd cwsmeriaid.

Rydym yn gweld mai'r risg ariannol mwyaf o ganlyniad i'r cynnig yma fydd cost uwch hawliadau, fydd yn cael eu rheoli gan Flood Re drwy gyfyngu ar faint y gellir ei wario ar Ailgodi'n Gryfach a defnyddio ailyswirio pan fo hynny'n bosibl. Yn yr hirdymor disgwylir y bydd y cynnig yma yn arwain at ostyngiad yng nghyfanswm costau hawliadau o ganlyniad i lai o risg llifogydd i gartrefi. Mae Flood Re wedi cynnig rhoi hyd at £10,000. Mae'r cap yma yn seiliedig ar gynigion presennol Ailgodi'n Gryfach yn y farchnad, ac mae iddo ddigon o ddarbodusrwydd ariannol i beidio ag effeithio ar allu Flood Re i weithredu neu dalu hawliadau. Dylid nodi nad yw'r ffigwr o £10,000 yn "darged" nac yn lefel ddisgwyliedig o wariant cynyddraddol am bob cartref, ond mae wedi ei bennu er mwyn gweithredu fel gwarchodaeth ariannol ar gyfer y Cynllun. Mae Flood Re yn disgwyl i yswirwyr osod mesurau sydd ond yn briodol i lefel y risg i eiddo penodol i'r dyfodol ac sydd yn gymesur i gost ac amgylchiadau'r hawliad.

Byddwn yn gweithio gyda Flood Re ar gasglu tystiolaeth ar werth am arian ac effeithiolrwydd y cynnig yma.

6. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai Flood Re gynnig Ailgodi'n Gryfach i bolisiau a ildwyd i'r Cynllun?

- **Cytuno**
- **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**
- **Anghytuno**

- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau i gefnogi eich atebion.

7. Beth yw'r effeithiau posibl o ganlyniad i Flood Re yn cynnig Ailgodi'n Gryfach? Yn eich ymateb, nodwch pwy fydd yn teimlo pob effaith.
8. Petai gwelliant yn cael ei gynnig yn unol â'r cynnig uchod, pa mor effeithiol ydych chi'n credu fyddai hynny o ran annog deiliaid tai i ystyried gosod PFR?

- Effeithiol
- Ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol
- Aneffeithiol
- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau i gefnogi eich atebion. Nodwch fanylion ynghylch beth allai'r newid yma ei olygu i ddeiliad tai, yswirwyr a/neu'r gweithwyr proffesiynol sydd yn gwneud gwaith adfer ar ran yr yswiriwr.

9. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai yswirwyr allu dewis cynnig Ailgodi'n Gryfach fel y'i hariannir gan Flood Re neu beidio?

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau am eich atebion.

10. Hefyd, i ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd y cynnig yma yn annog y farchnad yswiriant i gynnig Ailgodi'n Gryfach fel rhan safonol o bolisiâu cyn 2039?

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau am eich atebion.

Mae'r 4 cwestiwn nesaf yn gofyn am safbwyntiau ynghylch y ddau newid technegol a gynigir gan Flood Re yn eu hadroddiad QQR. Bwriedir i'r newidiadau yma wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y Cynllun ei hun a chynnig gwell gwerth am arian.

Ardoll I

Mae Flood Re yn cael ei ariannu drwy ardoll ar y diwydiant yswiriant cartrefi yn y DU, a elwir yn Ardoll I. Mae'n ofynnol i unrhyw yswiriwr yn y DU sydd yn cynnig yswiriant cartref yng Nghymru, Yr Alban, Gogledd Iwerddon neu Loegr dalu'r ardoll yma, ac mae'r swm maent yn ei dalu yn cael ei gyfrifo yn seiliedig ar eu cyfran o'r farchnad h.y. eu premiwm ysgrifenedig gros a nifer yr yswirwyr sydd yn gweithredu yn y farchnad. Mae cyfanswm yr ardoll yn cael ei nodi yn y Rheoliadau ac mae wedi cael ei bennu ar £180m y flwyddyn ers sefydlu'r Cynllun yn 2016. Er mwyn osgoi costau cynyddol i yswirwyr mae'r llywodraeth wedi bod yn glir na ddylai'r ardoll fod yn uwch na £180m. Bydd yr amod yma yn parhau.

Ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau yn nodi y dylai Ardoll I gael ei adolygu bob pum mlynedd. Mae hynny yn alinio â chylchoedd adolygu eraill y Cynllun, yn cynnwys yr un mewn perthynas â therfyn atebolrwydd y Cynllun a'r Adolygiad Pum Mlynedd. Mae Flood Re wedi cynnig y dylai Ardoll I gael ei bennu i'r dyfodol bob tair blynedd yn hytrach na phum mlynedd. Bydd newid o'r fath yn golygu y bydd angen diwygio'r Rheoliadau.

Mae Flood Re wedi bodloni eu gofynion hylifedd a chyfalaf ac mae ganddynt gymhareb solfedd uchel, sydd yn golygu bod y Cynllun yn ariannol ddiogel. Rydym yn ystyried ei bod yn bwysig bod yr ardoll nawr yn cael ei wneud yn fwy hyblyg fel y gall adlewyrchu gwir anghenion incwm y Cynllun yn well. Oherwydd ei bod yn ofynnol i holl yswirwyr cartrefi y DU dalu tuag at Ardoll I, rydym yn amcangyfrif bod cost anuniongyrchol yr ardoll i gartrefi yn tua £10.50 y flwyddyn i bob cartref. Felly, disgwylir y bydd unrhyw ostyngiadau o fudd i aelwydydd yn y DU. Hefyd bydd yna gyfleoedd i ddefnyddio cynilion ar gyfer ariannu'r cynigion eraill a nodir yn yr ymgynghoriad yma. Bydd pennu'r cylch pennu ardoll i dair blynedd hefyd yn ei alinio â rhaglen gaffael ailyswirio Flood Re, a dylai eu galluogi i gael gwell gwerth am arian wrth brynu ailyswiriant.

Wrth bennu'r ardoll mae'n rhaid i Flood Re gydbwysu'r angen am breimymau isel i ddeiliaid polisïau a sicrhau bod ganddynt ddigon o arian wrth gefn i dalu am unrhyw golledion o ganlyniad i ddigwyddiadau llifogydd sylweddol. Byddai hynny yn dal yn wir p'un a bod yr ardoll yn cael ei bennu bob tair blynedd neu bob pum mlynedd.

Ar hyn o bryd mae'n rhaid i'r llywodraeth gytuno ar unrhyw newid i'r ardoll. Fel rhan o'r broses yma byddem yn disgwyl gweithio gydag arbenigwyr actwaraidd er mwyn craffu ar fodelu Flood Re ar gyfer y cyfnod ardoll tair blynedd. Byddai newid i'r ardoll ond yn cael ei gymeradwyo pan fo Gweinidogion yn fodlon bod asesiad Flood Re o'u hanghenion incwm yn ystod y tair blynedd nesaf yn ddigonol i'w galluogi i barhau i weithredu'r Cynllun yn effeithiol a chyflawni eu hamcanion pontio. Ar ôl cytuno ar unrhyw newid arfaethedig i'r ardoll, byddai angen diwygio'r Rheoliadau.

11.1 ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai Ardoll I gael ei bennu bob tair blynedd yn hytrach na phum mlynedd?

- **Cytuno**
- **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**

- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau am eich atebion.

12. A oes yna unrhyw ganlyniadau anfwriadol i newid cylch Ardoll I o bum mlynedd i dair blynedd?

Terfyn Atebolrwydd

Mae terfyn atebolrwydd Flood Re yn pennu uchafswm yr hawliadau y mae Flood Re yn atebol i'w dalu i yswirwyr yn ystod unrhyw flwyddyn ariannol. Mae'r atebolrwydd presennol wedi ei bennu ar £2.244 biliwn (wedi ei gysylltu â Mynegai Prisiau Defnyddwyr) a bwriadwyd i hynny fod yn digonol i sicrhau y gallai Flood Re dalu am hawliadau ar gyfer digwyddiad llifogydd unwaith mewn 200 mlynedd. Fel yn achos Ardoll I, mae terfyn atebolrwydd Flood Re yn cael ei ailasesu bob pum mlynedd.

Mae Flood Re wedi cynnig y dylai'r broses o bennu'r terfyn atebolrwydd ddigwydd bob tair blynedd fel bod hynny yn digwydd yr un pryd â'r cylch pennu arfaethedig ar gyfer Ardoll I (y manylir arno yn yr adran flaenorol). Byddai newid o'r fath yn golygu y byddai angen diwygio'r Rheoliadau, a byddai angen diddymu ac ail-lunio'r Rheoliadau Dynodi. Mae Flood Re hefyd yn prynu ailyswiriant er mwyn gwarchod y terfyn atebolrwydd bob tair blynedd, felly byddai'r newid yma yn alinio unrhyw newid i'r terfyn atebolrwydd gyda phryniant ailyswiriant Flood Re.

Fel yn achos Ardoll I, byddai'r newid yma yn rhoi mwy o hyblygrwydd i Flood Re ymateb i anghenion incwm newidiol y Cynllun a'r proffil risg. Mae Flood Re yn ystyried y bydd y newid yma yn eu helpu i ymateb yn fwy deinamig i newidiadau yn y farchnad, caffael eu hailyswiriant eu hunain yn fwy effeithlon, a chynorthwyo yswirwyr gyda chynlluniau busnes mwy effeithlon. Yn seiliedig ar eu modelu eu hunain, nid yw Flood Re yn credu y bydd y newid yma yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar yswirwyr sydd yn defnyddio Flood Re, na'u gofynion solfedd.

Fel yn achos unrhyw newidiadau i Ardoll I, byddai angen i'r llywodraeth weld a chymeradwyo newid i'r terfyn atebolrwydd cyn iddo ddod i rym. Byddwn yn ceisio sicrwydd cyn rhoi unrhyw gymeradwyaeth. Byddai Defra yn sicrhau bod yna ddarbodusrwydd yn y cyfrifiadau a wneir gan Flood Re er mwyn lleihau'r risg y bydd y terfyn atebolrwydd yn cael ei ostwng cyn digwyddiad llifogydd sylweddol a hynny yn golygu na fyddai Flood Re yn gallu darparu'r yswiriant llawn sydd ei angen. Bydd Defra yn gweithio'n agos gyda Flood Re yn ystod y broses ail-gyfrifo er mwyn sicrhau bod unrhyw ail-gyfrifiad yn ddigonol.

13.1 ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod tair blynedd yn gyfnod pennu priodol ar gyfer y terfyn atebolrwydd?

- **Cytuno**
- **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**
- **Anghytuno**
- **Ddim yn gwybod**

Rhowch resymau am eich atebion.

14. Beth yw'r effeithiau posibl o ganlyniad i newid y cyfnod pennu atebolrwydd o bum mlynedd i dair blynedd?

Defnyddio cronfeydd Flood Re

Hoffem archwilio a oes yna fwy allai Cynllun Flood Re ei wneud i gyflymu'r defnydd o PFR, yn cynnwys a ddylid galluogi Flood Re wario unrhyw wargedion mae'n eu crynodi (sydd yn fwy nag sydd ei angen arno i weithredu a bodloni ei ofynion rheoleiddiol) ar fwy o weithgareddau er mwyn cefnogi'r broses bontio i farchnad yswiriant cartrefi sydd yn adlewyrchu risg ar gyfer y rhai sydd yn wynebu risg llifogydd erbyn 2039. Mae yna wahanol ffyrdd o gyflawni hynny, a rhai ohonynt yn golygu y byddai angen deddfwriaeth sylfaenol neu eilaidd.

Rhwng 2016 a diwedd 2019, cyfyngedig fu'r llifogydd yn y DU. Roedd hynny, ynghyd â phennu ardoll Flood Re ar £180m ers 2016, yn golygu bod incwm Flood Re yn sylweddol uwch na'i wariant yn ystod tair blynedd cyntaf ei fodolaeth. [Gweler cwestiynau 11-12 ar ddarparu mwy o hyblygrwydd i Flood Re i'r dyfodol]. Sefydliad dielw yw Flood Re, ac oherwydd hynny ni ddylai gronni gwaged sylweddol na dal symiau mawr o arian wrth gefn y tu hwnt i'r hyn sydd yn angenrheidiol ar i'r Cynllun weithredu a bodloni ei ofynion rheoleiddiol.

Mae gallu'r Cynllun i wario ar hyn o bryd wedi ei gyfyngu i ddarparu ailyswiriant. Ar hyn o bryd mae Flood Re yn gwario cyfran o'i wariant blyneddol ar weithgareddau sydd yn adlewyrchu ei bwrpas i reoli'r broses bontio i farchnad yswiriant sydd yn adlewyrchu risg erbyn 2039⁸. Mae hynny yn golygu nad ydynt yn gallu gwario arian ar weithgareddau sydd y tu hwnt i hynny ond sydd yn cefnogi eu nod hirdymor o leihau'r difrod a'r gost o ganlyniad i lifogydd.

Yn unol ag uchelgais y llywodraeth i baratoi cymunedau yn well a chynyddu'r defnydd o fesurau PFR mewn cartrefi risg uchel, rydym eisiau deall a oes yna fwy allai Flood Re ei wneud mewn perthynas â hyn. Byddai angen cydbwysu hynny â swm yr ardoll a godir.

15. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai Flood Re allu gwario eu cronfeydd, y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen i weithredu fel ailyswiriwr masnachol, ar ystod ehangach o weithgareddau sydd yn cyfrannu tuag at gynyddu'r defnydd o PFR?

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

⁸ Cynllun Pontio Flood Re: https://www.floodre.co.uk/wp-content/uploads/2018/07/Flood_Transition2018_AW.pdf

- 16. Beth allai'r effeithiau neu'r canlyniadau fod petai Flood Re yn gwario unrhyw warged mae'n ei gronni yn ystod cyfnod pennu ardoll (sydd yn uwch na'r hyn sydd ei angen arno i weithredu a bodloni ei ofynion rheoleiddiol) ar weithgareddau eraill?**
- 17. Pa weithgareddau fyddai orau i Flood Re roi arian tuag atynt er mwyn cyflymu'r broses bontio tuag at farchnad yswiriant sydd yn adlewyrchu risg yn y DU erbyn 2039?**

Premiymau Flood Re

Mae tystiolaeth o Adolygiad Annibynnol o Yswirwyr yn Doncaster gan Amanda Blanc⁹ yn awgrymu y gallai'r premiwm cymorthdaledig rhataf ar gyfer yswiriant cynnwys a ddarperir gan Flood Re (£52) fod dal yn anfforddiadwy i gartrefi ar incwm isel, ac y gallai hynny fod yn creu bwlch yswirio. Yn benodol, mae'r adroddiad yn argymhell y dylai'r llywodraeth ystyried ffyrdd mwy uniongyrchol o gynyddu'r defnydd o yswiriant cynnwys i denantiaid mewn ardaloedd risg uchel.

Nid yw Flood Re yn delio'n uniongyrchol â pherchnogion tai, ond yn hytrach mae'n galluogi i gwmnïau yswiriant drosglwyddo'r elfen risg llifogydd mewn polisïau yswiriant tai i Flood Re ar gyfer premiwm penodol sydd yn amrywio yn ôl bandiau treth cyngor y cartrefi a yswirir. Mae'r Rheoliadau yn nodi uchafswm trothwy premiwm ar gyfer pob band treth cyngor ac yn darparu ar gyfer cynnydd yn ôl Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) ar ôl hynny. Mae'r Rheoliadau presennol yn caniatáu i Flood Re amrywio'r premiymau a godir, cyn belled nad ydynt yn uwch na'r trothwy a nodir. Hefyd, mae tâl-dros-ben sefydlog o £250 am bob hawliad yn gymwys i hawliadau llifogydd ar bolisïau a ildwyd.

Mae'r tabl isod yn rhoi manylion am y premiymau ailyswirio o'r tu allan yn 2019/20 ar gyfer cartrefi a ildwyd i gynllun Flood Re.

Band treth	Lloegr a'r Alban	A	B	D	M	E	F	G	H
	Cymru	A	D	M	E	F	G	H	I
		Gogledd Iwerddon	1	2	3	4	5	6	7
Cyfun		169	169	197	221	265	331	436	1218
Adeiladau		117	117	131	148	176	231	296	812
Cynnwys		52	52	66	73	89	100	140	406

⁹ <https://www.gov.uk/government/publications/flood-insurance-review-2020-blanc-review>

Yn 2019 gostyngodd Flood Re eu premiymau ailyswirio 12.5% ar gyfer pob eiddo ac eithrio'r rhai yn y band treth cyngor uchaf ar gyfer adeiladau, a 33% ar gyfer cynnwys. Roedd y gostyngiad yma yn dilyn penderfyniad Flood Re i beidio â chynyddu premiymau yn unol â chwyddiant yn 2018.

Mae yna nifer o ystyriaethau y mae'n rhaid i Flood Re eu cydbwyso wrth ystyried cost premiymau. Felly, gallai'r cynnig yma olygu goblygiadau ehangach i baramedrau eraill y Cynllun a byddai angen ystyried yn ofalus unrhyw ganlyniadau anfwriadol er mwyn bodloni gofynion rheoleiddiol a sicrhau tegwch ar draws yr holl fandiau treth cyngor. Ond, rydym yn croesawu ymatebion ynglŷn â'r cynnig yma ar hyn o bryd.

18. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai Flood Re ostwng mwy ar gost eu premiymau rhataf?

- **Cytuno**
- **Ddim yn cytuno nac yn anghytuno**
- **Anghytuno**
- **Ddim yn gwybod**

19. Beth allai'r effeithiau neu ganlyniadau fod petai Flood Re yn newid cost eu premiymau rhataf?

Rhestr o gwestiynau

1. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai Flood Re gynnig premiymau gostyngedig i gartrefi sydd wedi gosod PFR?

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

2. I ba raddau ydych chi'n credu y bydd cynnig premiymau gostyngedig gan Flood Re i gartrefi sydd wedi gosod PFR yn helpu i gymell defnyddio PFR mewn cartrefi risg uchel?

- I raddau helaeth
- I raddau cymedrol
- I ryw raddau
- I raddau bychan
- Dim o gwbl
- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau i gefnogi eich atebion.

3. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd cynnig premiymau gostyngedig gan Flood Re i gartrefi sydd wedi gosod PFR yn cymell yswirwyr i gynnig premiymau gostyngedig?

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

4. A ydych yn rhagweld unrhyw ganlyniadau anfwriadol i gynnig premiymau gostyngedig i gartrefi sydd wedi ildio polisïau i Flood Re sydd wedi cymryd camau i osod Cydnerthedd Llifogydd Eiddo?

5. Beth yw'r ffordd orau i Flood Re ostwng premiymau yswiriant i rai sydd wedi gosod mesurau PFR priodol?

- Cymhwyso'r un gostyngiad i'r holl bolisïau cymwys.

- Cymhwyso gostyngiadau yn seiliedig ar sgôr effeithiolrwydd y PFR a osodwyd, gyda'r gostyngiadau canran uwch yn cael eu cymhwyso i'r rhai sydd wedi gosod PFR sgôr uwch.
- Cymhwyso gostyngiadau yn seiliedig ar fandiau'r Dreth Gyngor, gyda gostyngiadau canran uwch yn cael eu cymhwyso i'r rhai mewn bandiau Treth Gyngor is.
- Cymhwyso gostyngiad canran yn ddibynnol ar werth yr yswiriant eiddo a chynnwys.
- Arall - rhowch fanylion.

6. A ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai Flood Re gynnig Ailgodi'n Gryfach i bolisiau a ildwyd i'r Cynllun?

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau i gefnogi eich atebion.

7. Beth yw'r effeithiau posibl o ganlyniad i Flood Re yn cynnig Ailgodi'n Gryfach? Yn eich ymateb, nodwch pwy fydd yn teimlo pob effaith.

8. Petai gwelliant yn cael ei gynnig yn unol â'r cynnig uchod, pa mor effeithiol ydych chi'n credu fyddai hynny o ran annog deiliaid tai i ystyried gosod PFR?

- Effeithiol
- Ddim yn effeithiol nac yn aneffeithiol
- Aneffeithiol
- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau i gefnogi eich atebion. Nodwch fanylion ynghylch beth allai'r newid yma ei olygu i ddeiliad tai, yswirwyr a/neu'r gweithwyr proffesiynol sydd yn gwneud gwaith adfer ar ran yr yswiriwr.

9. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai yswirwyr allu dewis cynnig Ailgodi'n Gryfach fel y'i hariannir gan Flood Re neu beidio?

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau am eich atebion.

10. Hefyd, i ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno y bydd y cynnig yma yn annog y farchnad yswiriant i gynnig Ailgodi'n Gryfach fel rhan safonol o bolisiau cyn 2039?

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau am eich atebion.

11. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai Ardoll I gael ei bennu bob tair blynedd yn hytrach na phum mlynedd?

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau am eich atebion.

12. A oes yna unrhyw ganlyniadau anfwriadol i newid cylch Ardoll I o bum mlynedd i dair blynedd?

13. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno bod tair blynedd yn gyfnod pennu priodol ar gyfer y terfyn atebolrwydd?

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

Rhowch resymau am eich atebion.

14. Beth yw'r effeithiau posibl o ganlyniad i newid y cyfnod pennu atebolrwydd o bum mlynedd i dair blynedd?

15. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai Flood Re allu gwario eu cronfeydd, y tu hwnt i'r hyn sydd ei angen i weithredu fel ailyswiriwr masnachol, ar ystod ehangach o weithgareddau sydd yn cyfrannu tuag at gynyddu'r defnydd o PFR?

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

16. Beth allai'r effeithiau neu'r canlyniadau fod petai Flood Re yn gwario unrhyw warged mae'n ei gronni yn ystod cyfnod pennu ardoll (sydd yn uwch na'r hyn sydd ei angen arno i weithredu a bodloni ei ofynion rheoleiddiol) ar weithgareddau eraill?

17. Pa weithgareddau fyddai orau i Flood Re roi arian tuag atynt er mwyn cyflymu'r broses bontio tuag at farchnad yswiriant sydd yn adlewyrchu risg yn y DU erbyn 2039?

18. I ba raddau ydych yn cytuno neu'n anghytuno y dylai Flood Re ostwng mwy ar gost eu premiymau rhataf?

- Cytuno
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno
- Ddim yn gwybod

19. Beth allai'r effeithiau neu ganlyniadau fod petai Flood Re yn newid cost eu premiymau rhataf?

Sut y gallwch fynegi eich barn

Sut mae ymateb

Bydd yr ymgynghoriadau cyhoeddus yma yn cael ei gynnal am 12 wythnos o [01 Chwefror 2021]. Mae'n agored i unrhyw un sydd â diddordeb mewn rhoi sylwadau. Darparwch atebion sydd yn egluro eich safbwyntiau yn llawn.

Ymatebwch i'r ymgynghoriad yma drwy ddefnyddio'r system Gofod Dinasyddion: [\[dolen\]](#).

Dylai ymatebion drwy'r post neu e-bost gael eu marcio'r glir gydag 'Ymgynghoriad ar ddiwygio cynllun Flood Re - ymateb' a'u hanfon at:

Flood Insurance and Preparedness Team
Foss House
Kings Pool
1-2 Peasholme Green
York
YO1 7PX

floodinsurance@defra.gov.uk

Bydd y llywodraeth yn amcanu at gyhoeddi crynodeb o ymatebion o fewn 12 wythnos i ddiwedd yr ymgynghoriad.

Cyfrinachedd a diogelu data

Bydd crynodeb o ymatebion i'r ymgynghoriad yma yn cael ei gyhoeddi a'i roi ar wefan y llywodraeth yn: www.gov.uk/defra.

Bydd y crynodeb yn cynnwys rhestr o enwau a sefydliadau sydd wedi ymateb, ond ni fydd yn cynnwys enwau, cyfeiriadau neu fanylion cyswllt eraill. Gellir cyhoeddi neu ddatgelu'r wybodaeth a ddarperir yn yr ymgynghoriad hwn, yn cynnwys data personol yn unol â'r cyfundrefnau mynediad i wybodaeth sef, yn sylfaenol, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA). Mae gennym ymrwymïadau, yn bennaf o dan yr EIR, FOIA a DPA, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion penodol neu'r cyhoedd mewn amgylchiadau penodol.

Os ydych eisiau i wybodaeth, yn cynnwys data personol, yr ydych yn ei darparu gael ei thrin yn gyfrinachol, nodwch hynny yn glir yn ysgrifenedig, pan fyddwch yn darparu eich rhesymau i'r ymgynghoriad, a nodi pam eich bod angen cadw'r manylion yma yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais i ddatgelu gwybodaeth o dan yr FOIA, byddwn yn ystyried eich eglurhad yn llawn, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal cyfrinachedd o dan pob amgylchiad. Ni ystyrir y bydd ymwrthodiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG, ynddo ei hun, yn gais i gadw cyfrinachedd.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet a gellir gweld y rhain yn: <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y broses ymgynghori, anfonwch nhw at:

Consultation Coordinator
Foss House
Kings Pool
1-2 Peasholme Green
York
YO1 7PX

Neu e-bostio: consultation.coordinator@defra.gov.uk